



Senedd Cymru
Welsh Parliament



Hysbysiad preifatrwydd



Sut rydym yn gofalu am eich
gwybodaeth bersonol

Beth yw hysbysiad preifatrwydd?



Mae hysbysiad preifatrwydd yn dweud wrthyfch sut y mae sefydliadau yn trin gwybodaeth sydd ganddynt amdanoch.



Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid i sefydliadau gael hysbysiad preifatrwydd.

A light blue form titled 'Gwybodaeth bersonol' (Personal Information). It has three sections: 'Eich enw' (Your name) with a small icon of a person, 'Cyfeiriad' (Address) with a small icon of a house, and 'Ffôn' (Phone) with a small icon of a mobile phone. Each section has a white box for text entry.

Mae ein hysbysiad preifatrwydd yn dweud wrthyfch y canlynol:

- Pa wybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch
- Sut rydym yn gofalu am eich gwybodaeth bersonol



Amdanom ni



Ni yw Comisiwn y Senedd. Rydym yn cefnogi Senedd Cymru. Rydym yn sicrhau bod ganddi ddigon o staff a gwasanaethau i weithio'n iawn.



Rydym wedi llunio cynllun am sut rydym yn gweithio gyda phobl. Mae'r cynllun yn dweud ein bod eisiau:

- ttrin pawb yn gyfartal
- gwneud yn siŵr bod pawb yn cael yr un cyfleoedd
- atal pobl rhag cael eu trin yn annheg



Gallwch ddarllen mwy am ein cynllun yn ein llyfryn hawdd ei ddeall.

Pam y mae gennym wybodaeth bersonol amdanoch



Mae gennym rai syniadau am sut y byddwn yn gwneud i'n cynllun weithio.



Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid i ni ofyn beth yw barn pobl am ein syniadau. Dylem ofyn i lawer o bobl:



- a ydynt yn cytuno â'n syniadau

ac



- a ydynt yn meddwl bod ffyrdd eraill i ni wneud pethau'n well



Er mwyn gwneud hyn, rydym wedi llunio 2 holiadur.

Mae 1 holiadur i'n staff.

Mae'r holiadur arall i bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau.



Byddwn yn gwrando ar yr hyn y mae pobl yn ei ddweud wrthym yn yr holiaduron. Byddwn yn defnyddio eu hatebion i wella ein gwasanaethau.

Dim ond i'n helpu i wneud hyn y byddwn yn cadw gwybodaeth bersonol.

WPa wybodaeth bersonol rydym yn ei chadw amdano

Eich enw
Marie Black

Cyfeiriad
345 Marin yr Eglwys

Os ydych yn llenwi ein holiadur, nid oes rhaid i chi nodi eich enw na'ch cyfeiriad. Fel hynny, ni fyddwn yn gwybod pwy wnaeth ei lenwi.

Gallai gwybodaeth bersonol arall a gawn o'r holiadur gynnwys:



- o ble rydych yn dod



- eich rhywedd a'ch rhywioldeb



- eich oedran

- eich hil

- eich crefydd




- a oes gennych anabledd

- eich addysg a pha waith rydych yn ei wneud



- a ydych yn rhiant neu'n ofalwr

Sut rydym yn casglu eich gwybodaeth bersonol



Rydym yn casglu eich gwybodaeth o:

- yr atebion a roddir gennych yn yr holiadur
- eich cyfeiriad e-bost, os ydych yn anfon yr holiadur yn ôl atom drwy e-bost
- fideo ohonoch. Er enghraifft, os anfonwch eich atebion atom yn Iaith Arwyddion Prydain



Pwy gaiff weld eich gwybodaeth



Dim ond pobl y mae angen iddynt weld eich gwybodaeth gaiff wneud hynny.



Byddwn yn cadw eich gwybodaeth yn gyfrinachol ac yn ddiogel.



Ni fyddwn yn rhannu eich gwybodaeth oni bai bod yn rhaid i ni wneud hynny yn ôl y gyfraith.

Lle y byddwn yn cadw eich gwybodaeth



Byddwn yn cadw eich gwybodaeth ar ein cyfrifiaduron.



Mae sefydliad o'r enw Microsoft yn ein helpu i reoli ein rhaglenni cyfrifiadurol.



Mae Microsoft yn drydydd parti. Mae hyn yn golygu nad yw'n gweithio i Gomisiwn y Senedd.



Mae gan Microsoft ei reolau ei hun ynglŷn â sut y mae'n gofalu am wybodaeth.

Am ba hyd rydym yn cadw eich gwybodaeth



Rydym yn cadw eich gwybodaeth am 2 flynedd.

Eich hawliau

Yn ôl y gyfraith, mae gennych yr hawl i wneud y canlynol:



- gofyn am weld pa wybodaeth sydd gennym amdanoch. Gallwch ofyn i ni am gopi o'r wybodaeth



- newid unrhyw wybodaeth sy'n anghywir



- gofyn i ni ddileu gwybodaeth sydd gennym amdanoch



- newid eich meddwl a phenderfynu nad ydych am i ni ddefnyddio rhywfaint o'ch gwybodaeth



TI ofyn am y pethau hyn, gallwch gysylltu â ni drwy e-bost:
diogelu.data@senedd.cymru



Cysylltu â ni

Os oes gennych gwestiynau, gallwch gysylltu â ni:



Dros y ffôn:
0300 200 6565



Drwy e-bost:
diogelu.data@senedd.cymru

Sut i gwyno



Os nad ydych yn fodlon ar y ffordd rydym yn defnyddio eich gwybodaeth, gallwch gwyno.

Ystyr cwyno yw dweud wrthym nad ydych yn fodlon.



Gallwch gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.



Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn gwirio ein bod yn gofalu am wybodaeth yn gywir.



**Gallwch ffonio Swyddfa'r
Comisiynydd Gwybodaeth ar:
0303 123 1113**



You can write to the ICO at:

**TSwyddfa'r Comisiynydd
Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF**

Cwestiynau

Beth yw eich barn chi?

☐ Da
☐ Gwael
☒ Ddim yn siŵr

SAfon yr holiadur yn ôl atom

Pan fyddwch wedi llenwi'r holiadur am amrywiaeth a chynhwysiant, cofiwch ei anfon yn ôl atom.



Drwy e-bost:

Amrywiaeth@Senedd.Cymru



Drwy'r post

**Y Tîm Amrywiaeth a Chynhwysiant
Comisiwn y Senedd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN**